**CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**

Cofnodion cyfarfod hybrid Deddf Trwyddedu 2003 a gynhaliwyd ddydd Llun, 6 Chwefror 2023 am 4.30p.m.

Cafodd y cyfarfod yma'i ffrydio'n fyw, ac mae'r manylion i'w gweld yma

**Roedd Cynghorwyr y fwrdeistref sirol canlynol yn bresennol yn Siambr y Cyngor:**

Y Cynghorydd A Fox (Cadeirydd)

Y Cynghorydd G Stacey   Y Cynghorydd L Ellis
Y Cynghorydd G Holmes   Y Cynghorydd K Johnson

**Roedd y Cynghorwyr canlynol yn bresennol ar-lein:**

Y Cynghorydd S. Powderhill   Y Cynghorydd A O Rogers
Y Cynghorydd J Turner

**Swyddogion oedd yn bresennol**

Ms R Hope, Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio
Mr P Nicholls, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cyfreithiol
Ms K Trilloe, Rheolwr Diogelu Iechyd a Thrwyddedu

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Y Cynghorydd S Bradwick   Y Cynghorydd T Williams

## 15 DATGAN BUDDIANT

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, ni wnaethpwyd unrhyw ddatganiadau mewn perthynas â'r Agenda.

## 16 DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A'R DDEDDF TROSEDD AC ANHREFN

**PENDERFYNWYD** nodi pan fydd Aelodau'n trafod y materion trwyddedu a chofrestru sydd ger eu bron, mae dyletswydd arnyn nhw i beidio â gweithredu mewn modd sy'n anghydnaws â'r confensiwn ar Hawliau Dynol a'r Ddeddf Trosedd ac Anhrefn.

## 17 COFNODION

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Tachwedd 2022 yn rhai cywir.

## 18 ADOLYGIAD O DDEDDF TRWYDDEDU 2003 AC O DDEDDF GAMBLO 2005

Cyflwynodd Pennaeth Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio yr adroddiad i'r Pwyllgor. Roedd yr adroddiad yn trafod materion perthnasol o ran Deddf Trwyddedu 2003 a Deddf Gamblo 2005 ar gyfer y cyfnod rhwng 14 Hydref 2022 ac 15 Ionawr 2023, yn ogystal â materion atodol eraill sy'n deillio o gyfrifoldebau'r Pwyllgor.

Wrth ddadansoddi ceisiadau am Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro, roedd 68 oddi wrth safleoedd trwyddedig a oedd yn bodoli eisoes, 22 ar gyfer achlysuron cymunedol â chaniatâd a 9 oddi wrth oddi wrth glybiau aelodau preifat, a daeth llu o geisiadau i law ym mis Tachwedd i ymestyn oriau agor mewn safleoedd trwyddedig a chlybiau ar gyfer Cwpan Pêl-droed y Byd. Parhaodd hyn tan gyfnod y Nadolig lle'r oedd cynnydd yn nifer yr Hysbysiadau Digwyddiad Dros Dro ar gyfer gweithgareddau megis marchnadoedd y Nadolig, cyngherddau carolau a gwerthu alcohol mewn safleoedd heb drwydded, ynghyd ag ymestyn oriau ar gyfer y sector manwerthu a safleoedd trwyddedig eraill i fasnachu dros yr ŵyl. Mae 24 o drwyddedau personol newydd wedi'u dyrannu.

Rhoddodd Pennaeth Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddiol wybod bod un cais wedi'i wrthwynebu ers adroddiad diwethaf y Pwyllgor, a hynny ar gyfer amrywio trwydded safle. Cafodd ei gymeradwyo, ond yn dilyn diwygiadau i'r cais amrywio gwreiddiol.

Ymhellach i hyn, does dim adolygiadau wedi bod yn ystod y cyfnod yma. Serch hynny, mae dau apêl gan ymgeiswyr yn Food For You, Pontypridd, lle gwrthodwyd yr apêl gan y Barnwr ac felly roedd penderfyniad y Pwyllgor yma i ddirymu trwydded y safle dal yn berthnasol. Yn Mountain Ash Stores, T/A Central Food, Aberpennar, cafodd penderfyniad y Pwyllgor yma i ddirymu trwydded y safle ei gwtogi gan y Barnwr, a benderfynodd atal y drwydded dros dro am 3 mis. Daeth hyn i rym am hanner nos ar 30/11/22 tan hanner nos ar 27/02/23. Yn ogystal â hyn, roedd yr Hen Swyddfa Bost ('Squares'), Porth wedi cyflwyno apêl, sydd yn yr arfaeth ar hyn o bryd.

Cafodd yr Aelodau eu cyfeirio at adran 4.3 yr adroddiad, lle caiff arolygiadau o safleoedd a thor rheolau eu hamlinellu. Arolygwyd cyfanswm o 47 o safleoedd ledled y fwrdeistref sirol. Roedd angen ymweliadau dilynol ar rai ohonyn nhw oherwydd pryderon ynghylch cydymffurfio â manylion eu trwyddedau.

Clywodd yr Aelodau fod y gwaith rhagweithiol sy'n cael ei gynnal wedi arwain at ychydig o ostyngiad yn y lefel cyflawniad presennol ar gyfer safleoedd a arolygwyd. Mae bellach yn 90.38% o'i chymharu â 90.66% yn ystod y cyfnod adrodd blaenorol.

Rhoddodd Pennaeth Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau

Rheoleiddio wybod bod Swyddogion yn cydweithio'n barhaus â'r safleoedd yma i sicrhau eu bod yn cydymffurfio. Rhoddodd wybod hefyd eu bod nhw wedi ymweld â Mountain Ash Stores ar ddau achlysur gwahanol i brynu alcohol er mwyn gwirio bod y safle'n cydymffurfio â'i orchymyn atal dros dro. At hynny, ar y ddau achlysur doedd dim alcohol yn cael ei arddangos, a phan ofynnwyd i aelod o staff am alcohol, gwrthododd ei werthu i'r Swyddogion. Roedd y safle'n cydymffurfio â'u gorchymyn atal dros dro o 3 mis.

Cafodd yr Aelodau wybod bod dau Swyddog Trwyddedu wedi mynychu'r gynhadledd hyfforddiant genedlaethol yn Stratford-upon-Avon ym mis Tachwedd 2022, ynghyd â Chadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu, y Cynghorydd Fox. Mae lleoedd yn brin ar y cwrs, sef un o achlysuron blynyddol pwysig maes trwyddedu, ac roedd y Cyngor yn ddigon ffodus i gael lle am ddim i un Swyddog. At hynny, bydd y Swyddog yn rhoi cyflwyniad i aelodau eraill grŵp Sefydliad Trwyddedu Cymru ar 8 Chwefror i rannu ei brofiad o'r achlysur. Cytunodd y tri a fynychodd ei bod yn gynhadledd gynhwysfawr ac roedd digonedd o sesiynau llawn gwybodaeth.

Rhoddodd Pennaeth Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio wybod i'r Aelodau fod erthygl wedi ymddangos yn y wasg yn ymwneud ag eiddo yn y Porth a oedd yn destun camau gorfodi gan Heddlu De Cymru a arweiniodd at ddod o hyd i ffatri ganabis. Er bod hyn wedi bod yn bryder i'r Awdurdod Trwyddedu, dylid nodi nad yw'r eiddo wedi masnachu ers sawl mis, a bod trwydded y safle bellach wedi'i hildio.

Clywodd yr Aelodau fod ardal y Tymbl yng Nghanol Tref Pontypridd yn edrych ychydig yn wahanol ar hyn o bryd gyda dim ond pedwar o'r chwe safle trwyddedig yn masnachu. Dydy'r hen safle 'Players' ar Broadway ddim wedi ail-agor eto, er gwaethaf iddo gael trwydded newydd. Hefyd, dydy 'Soul Suite' ddim wedi ail-agor ers mis Mawrth 2020 ac mae'n parhau i fod yn wag. Mae trwydded y safle yn dal i fod yn ddilys.

Hefyd, daeth i sylw y Cyngor bod siop gyfleustra fechan ddim yn cydymffurfio achos doedd dim goruchwyliwr dynodedig yno. Ymwelodd Swyddogion Trwyddedu â'r siop a daeth yr holl werthu alcohol i ben. Cafwyd cais trosglwyddo ac amrywio goruchwyliwr dynodedig y safle gan y perchnogion newydd cyn pen 3 diwrnod i'r ymweliad, gan olygu bod y safle yn cydymffurfio unwaith yn rhagor.

At hynny, mae safle hwyr y nos yng nghanol tref Aberdâr wedi agor am y tro cyntaf ers y pandemig. Mae bellach ar gau eto ar gyfer mis Ionawr gan eu bod nhw'n disgwyl iddi fod yn dawel o ran busnes.

Cafodd yr Aelodau wybod bod Martin Roberts o raglen deledu 'Homes Under The Hammer' wedi prynu'r dafarn ym Mlaen-cwm ac mae'r drwydded bellach yn cael ei throsglwyddo i enw ei gwmni.

Hefyd, cafodd yr Aelodau wybod bod rhywfaint o gamau gorfodi wedi cael

eu dwyn yn erbyn siop 'vape' yn Aberdâr dros y misoedd diwethaf, gan ddod i sylw Swyddogion Safonau Masnach yn benodol. Er nad oedd y siop dan sylw yn safle trwyddedig, roedd yn denu pobl ifainc a phlant o'r ysgol, gan achosi pryder i'r safleoedd trwyddedig yn yr ardal. Llwyddodd Safonau Masnach i gael Hysbysiad Cau gan y Llys ac mae'r safle bellach ar gau. Does dim hawl iddo ail-agor am 3 mis.

Nododd Pennaeth Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio bod cynllun Pubwatch yn parhau i fod yn llwyddiant yn y fwrdeistref sirol, gyda chyfarfodydd rheolaidd yn parhau i gael eu cynnal ledled Rhondda Cynon Taf. Mae Swyddogion Trwyddedu yn cynnig cymorth ac arweiniad yn y cyfarfodydd a chaiff safleoedd eu hannog i fynychu.

Yn ogystal â hyn, cynhaliodd y grŵp Cynghori ar Ddiogelwch, sy’n blatfform aml-asiantaeth, gyfarfod yn gynnar ym mis Ionawr i drafod yr achlysuron sydd i ddod am y flwyddyn. Mae llawer o drefnwyr wedi cysylltu â’r grŵp i sicrhau bod eu hachlysuron yn ein bwrdeistref sirol yn cael eu cynnal mewn modd ddiogel a chyfreithlon.

Cafodd yr Aelodau wybod bod 11 o gwynion ar wahân am sŵn mewn un safle trwyddedig yn Aberaman wedi dod i law Swyddogion Trwyddedu yn ystod mis Tachwedd 2022. O ganlyniad i hyn, cynhaliwyd ymarfer monitro ar y cyd â Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd ar 26 Tachwedd. Hefyd, roedd sŵn cerddoriaeth i'w chlywed y noson honno mewn eiddo preswyl cyfagos. Ymwelodd Swyddogion â'r safle ar yr un noson i roi cyngor. Cynhaliwyd cyfarfod ychydig ddyddiau wedyn gyda deiliad trwydded a goruchwyliwr dynodedig y safle. Penderfynodd rheolwyr y safle roi'r gorau i bob achlysur a oedd yn cynnwys DJ, yn ogystal â disgos i bobl ifainc. Ers hynny does dim cwynion pellach wedi dod i law.

Roedd yr Aelodau’n falch o glywed oddi wrth grŵp Pubwatch Trefforest lle, ym mis Ionawr, roedd un safle trwyddedig wedi croesawu menyw oedrannus ar ôl iddi fod mewn damwain â char yn y stryd. Cafodd hi ddishgled a rhywle cynnes i aros wrth i'r ambiwlans gyrraedd. Sylwodd safle trwyddedig arall yn yr ardal ar ddyn ar y stryd yn y tywydd oer. Aethon nhw ag ef i mewn, gan roi bwyd a diod poeth iddo. Mae deilydd y drwydded o'r farn bod y dyn yn byw yn yr ardal, ond roedd yn bryderus amdano y diwrnod hwnnw am fod y tywydd yn oer.

O ran adennill ffioedd blynyddol, cafodd yr Aelodau wybod bod talu ffioedd blynyddol yn parhau i fod ar y lefel ddisgwyliedig ar gyfer adeg yma'r flwyddyn. Serch hynny, mae deiliaid trwyddedau fel arfer yn gohirio talu tan ar ôl cyfnod y Nadolig. At hynny, mae saith safle wedi ildio eu trwyddedau yn ystod y cyfnod yma – pob un ohonyn nhw yn ardal Cwm Rhondda.

**19 TRAFOD CADARNHAU'R CYNNIG ISOD YN BENDERFYNIAD:**

**PENDERFYNWYD** bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac

aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr eitem nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 13 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf.

## 20 TRWYDDEDAU A CHOFRESTRIADAU A RODDWYD O DAN DDARPARIAETH PWERAU DIRPRWYEDIG YN YSTOD Y CYFNOD: 17.10.22 – 15.01.23

Cyflwynodd Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio fanylion trwyddedau a chofrestriadau a gyhoeddwyd yn ystod y cyfnod rhwng 17 Hydref 2022 a 26 Ionawr 2023 i'r Aelodau.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** nodi cynnwys yr adroddiad.

**Daeth y cyfarfod i ben am 4.40pm**

**Y Cynghorydd A Fox**
**Cadeirydd.**